# Deddf Addysg (Cymru) 2014

**2014 dccc 5**

**RHAN 2**

Y GWEITHLU ADDYSG

*Sefydlu a gwerthuso personau cofrestredig*

### 17 Gofyniad i ymgymryd â chyfnod sefydlu

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ar gyfer ei gwneud yn ofynnol, neu mewn cysylltiad â'i gwneud yn ofynnol, fod person wedi cwblhau unrhyw gyfnod sefydlu yn foddhaol mewn man neu leoliad o unrhyw ddisgrifiad a bennir cyn y caniateir i'r person hwnnw gofrestru (ac eithrio ar sail dros dro).

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth—

(a) ynghylch yr amgylchiadau pan ganiateir i berson gael ei esemptio o'r gofyniad ei fod wedi cwblhau cyfnod sefydlu yn foddhaol;

(b) ynghylch y cyfnod a'r broses sefydlu gan gynnwys, yn benodol, ddarpariaeth sy'n ymwneud â'r canlynol—

(i) y cyfnodau o gyflogaeth y caniateir iddynt gael eu cyfrif fel rhan o'r cyfnod sefydlu;

(ii) y cymeradwyaethau y caniateir iddynt fod yn ofynnol cyn y caiff person ymgymryd â chyfnod sefydlu;

(iii) yr amgylchiadau pan nad yw'r sefydlu i ddigwydd mewn man neu leoliad o ddisgrifiad penodedig;

(iv) yr amgylchiadau pan gaiff person ymgymryd â mwy nag un cyfnod sefydlu;

(c) ynghylch hyfforddi a goruchwylio person yn ystod cyfnod sefydlu;

(d) ynghylch asesu personau sy'n ymgymryd â chyfnod sefydlu, gan gynnwys, yn benodol, ddarpariaeth—

(i) sy'n pennu'r person neu'r corff sy'n gyfrifol am benderfynu a yw person wedi cwblhau cyfnod sefydlu yn foddhaol ("y corff priodol");

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(ii) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r pennaeth perthnasol wneud argymhelliad i'r corff priodol o ran a yw'r person wedi bodloni'r safonau gofynnol y penderfynir arnynt o dan adran 18;

(iii) sy'n pennu amgylchiadau pan gaiff y corff priodol benderfynu y dylid estyn cyfnod sefydlu person neu pan fo rhaid i'r corff priodol benderfynu estyn y cyfnod hwnnw;

(e) ynghylch y canlyniadau yn sgil cwblhau cyfnod sefydlu gan berson (p'un ai yn foddhaol ai peidio), gan gynnwys, yn benodol, ddarpariaeth—

(i) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff priodol hysbysu Gweinidogion Cymru a'r Cyngor pan fydd person wedi cwblhau cyfnod sefydlu neu fod y cyfnod hwnnw wedi ei estyn;

(ii) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwr person nad yw wedi cwblhau cyfnod sefydlu yn foddhaol derfynu cyflogaeth y person neu fel arall sicrhau bod y person yn rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau perthnasol ar gyfer y cyflogwr;

(iii) sy'n ei gwneud yn ofynnol mai dim ond y gwasanaethau perthnasol hynny y penderfynir arnynt yn unol â'r rheoliadau y caiff y person eu darparu ar gyfer ei gyflogwr;

(f) ynghylch unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â chyfnodau sefydlu sy'n angenrheidiol neu'n hwylus ym marn Gweinidogion Cymru, gan gynnwys (er enghraifft) ddarpariaeth—

(i) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff priodol nad yw'n awdurdod lleol gynnwys cynrychiolydd o awdurdod o'r fath,

(ii) sy'n rhoi swyddogaethau pellach ar y corff priodol, a

(iii) sy'n awdurdodi'r corff priodol, mewn unrhyw amgylchiadau a bennir, i godi unrhyw daliadau mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau y mae'n penderfynu arnynt.

(3) Rhaid i berson neu gorff sy'n arfer swyddogaeth o dan yr adran hon neu unrhyw reoliadau a wneir oddi tani roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.